**Adroddiad ar**

# Ysgol Gynradd Llanilar
# Llanilar
# Aberystwyth
# Ceredigion
# SY23 4PA

**Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2010**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Llanilar yn gwasanaethu pentref Llanilar a'r ardal amaethyddol o amgylch. Ar hyn o bryd mae cyfanswm o 89 o ddisgyblion rhwng 4 a 11 oed ar gofrestr yr ysgol. Gwelwyd twf sylweddol yn y niferoedd ers yr arolygiad diwethaf.

Er mai dim ond 33% o'r disgyblion a ddaw o gartrefi ble y siaredir y Gymraeg yn iaith gyntaf, Cymraeg yw prif iaith yr ysgol. Yn ôl yr ysgol, daw'r disgyblion o gefndir nad yw'n ffyniannus nac o dan anfantais economaidd ac adlewyrchir ystod lawn o allu. Mae llai na 5% o'r disgyblion sydd â hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae'r ffigwr yma yn is na'r cyfartaleddau sirol a chenedlaethol. Dynodir 26% o ddisgyblion a chanddynt anghenion addysgol arbennig (AAA) gan gynnwys dau sydd â datganiad o AAA.

Addysgir y disgyblion mewn pedwar dosbarth gan bedwar athro llawn amser ac un rhan amser ynghŷd â phum cymhorthydd dosbarth.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn ystod tymor yr Hydref 2004. Penodwyd y Pennaeth i'w swydd yn Ebrill 2002 ac mae tair athrawes a thair cymhorthydd dosbarth yn newydd i'r ysgol ers hynny.

Y gyllideb ysgol unigol yn 2009-2010 fesul disgybl ar gyfer Ysgol Llanilar yw £3,047 sy'n cymharu gydag uchafswm o £24,095 ac isafswm o £2,741 ar gyfer ysgolion cynradd yng Ngheredigion. Yr ysgol sydd â'r gyllideb fesul disgybl 58ain uchaf o'r 63 ysgol gynradd yng Ngheredigion.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae'r ysgol hon yn dda oherwydd:

- safonau a chyflawniad da gan y disgyblion ar draws yr ysgol;
- canran uchel o'r disgyblion yn cyrraedd lefel tu hwnt i'r lefel ddisgwyliedig;
- yr ethos hapus, ofalgar a chefnogol gyda disgwyliadau uchel o ran ymddygiad y plant;
- addysgu o safon dda yn yr holl ddosbarthiadau a chefnogaeth effeithiol y cymorthyddion dysgu; a
- llwyddiant yr ysgol mewn datblygu'r Gymraeg ac o gyflwyno'r diwylliant Cymreig.

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn dda oherwydd:

- pennaeth, dirprwy a staff ymroddgar yn rhannu'r un weledigaeth ac yn cyd-weithio i wireddu eu dyheadau;
- mae'r holl fudd-ddeiliaid yn cyfrannu at broses hunanarfarnu drylwyr sy'n sylfaen gadarn i gynlluniau gwella'r ysgol;
- systemau sicrhau ansawdd effeithiol a chynhwysfawr yn eu lle sy'n monitro pob agwedd o waith yr ysgol ac sydd yn sylfaen i gynlluniau datblygu'r ysgol; a
- Corff Llywodraethu brwdfrydig a chefnogol sy'n cyflawni ei ddyletswyddau yn gydwybodol.

## Argymhellion

Er mwyn gwella, mae angen i’r ysgol:

A1 gwella medrau dysgu annibynnol disgyblion cyfnod allweddol dau;

A2 datblygu ymhellach asesu ar gyfer dysgu a rôl y disgyblion yn y broses;

A3 sicrhau gweithgareddau mwy heriol ar gyfer y disgyblion mwyaf abl; a

A4 datblygu yn fwy effeithiol rôl strategol y dirprwy.

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Dengys canlyniadau asesiadau sylfaen y plant ar fynediad i'r ysgol, nad oes yna fawr o ystod mewn gallu mwyafrif helaeth o'r plant yn y medrau sylfaenol. Mae bron bob un o'r disgyblion yn cyflawni'r deilliannau a ddisgwylir am eu hoedran erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen.

Yng nghyfnod allweddol 1, dros y dair blynedd ddiwethaf, cyrhaeddodd pob disgybl lefel 2 neu uwch yn y Gymraeg hyd at eleni ble gwelwyd gostyngiad hyd at 86%. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, cyrhaeddodd pob disgybl lefel 2 neu uwch mewn mathemateg a gwyddoniaeth. Er bod canlyniadau yn y Gymraeg yn is mae'r ganran sy'n cyrraedd tu hwnt i'r lefel ddisgwyliedig yn uwch na'r teulu a'r sir o fewn ysgrifennu'r Gymraeg.

Mae canlyniadau diwedd cyfnod allweddol dau ar draws y meysydd yn well na'r teulu, Awdurdod a Chymru dros gyfnod tair blynedd ag eithro yn 2009 ble gwelwyd ychydig ostyngiad yn y ganran yn cyrraedd y lefel ddisgwyliedig. Mae'r gyfran sy'n cyrraedd lefel tu hwnt i'r lefel ddisgwyliedig eleni yn y ddwy iaith yn sylweddol uwch na niferoedd y teulu, yr awdurdod a Chymru.

Mae'r carfannau cymharol fach o ddisgyblion a chanlyniadau disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn dylanwadu ar safle'r ysgol ambell flwyddyn.

Mae'r disgyblion sydd a hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim ac sydd ag anghenion addysgol arbennig yn gwneud cynnydd amlwg. Mae'r disgyblion yma yn ymateb yn dda i'r tasgau osodir ar eu cyfer a chyflawnir gwaith yn ôl eu gallu gan wneud cynnydd amlwg o fewn cyfnod gwers.

Nid oes patrwm arwyddocaol yn cyfeirio at unrhyw wahaniaethau rhwng canlyniadau merched a bechgyn dros gyfnod o bedair blynedd.

Yn ystod y cyfnodau arsylwi yn y dosbarthiadau mae'n amlwg fod y goreuon yn gweithio ar lefelau priodol ac yn cynhyrchu gwaith ysgrifenedig ymestynol ond nid ydynt yn ymgymryd a thasgau digon heriol ar adegau.

Mae'r data o fewn y system dracio yn dangos y cynnydd amlwg o gymharu hefo canlyniadau asesiad sylfaen ar fynediad i'r ysgol. Mae cynnydd amlwg hefyd yng ngwaith y disgyblion sydd wedi derbyn cymorth o fewn darllen a sydd wedi eu targedu ar gyfer cefnogaeth yn y medrau eraill.

Mae bron bob disgybl ar draws yr ysgol yn gwrando'n astud ac yn ymateb yn dda ar lafar i unrhyw gwestiynu. Mae ansawdd yr iaith lafar yn gyffredinol dda ac mae mwyafrif helaeth o'r disgyblion yn hyderus iawn yn eu defnydd o'r ddwy iaith.

Mae mwyafrif helaeth o'r disgyblion yn darllen yn hyderus ar goedd. Darllenant waith oddi ar y bwrdd gwyn a'u gwaith eu hunain ar ddiwedd sesiynau yn hyderus. Darllenant ystod o ddeunyddiau ar gyfer cywain gwybodaeth yn effeithiol.

Mae disgyblion ar draws yr ysgol yn ysgrifennu yn effeithiol ac o fewn eu gallu yn draws gwricwlaidd. Mae gwaith ysgrifenedig disgyblion ar draws yr ysgol o fewn y Gymraeg yn dda gydag engreifftiau o waith ymestynol effeithiol o fewn y ddwy iaith yng nghyfnod allweddol 2 megis y gwaith ar bortreadu.

Mae safon y Gymraeg yn dda ar draws yr ysgol. Mae cyrhaeddiad disgyblion o gartrefi di-Gymraeg o'r iaith yn datblygu i fod yn dda o fewn byr amser yn yr ysgol. Mae medrau dwyieithog ar draws yr ysgol yn effeithiol ac mae'r cwricwlwm Cymreig yn greiddiol i waith ac ethos yr ysgol.

**Lles: Rhagorol**

Mae gan bron bob plentyn ymwybyddiaeth dda o'r angen i gadw'n heini ac i fwyta'n iach.

Mae lefel presenoldeb y dysgwyr am 2009-2010 yn 95%, sy'n well na'r canran sirol a chenedlaethol. Mae'r mwyafrif helaeth o'r disgyblion yn datgan eu bod yn hapus yn yr ysgol, yn teimlo'n ddiogel ac nad ydynt yn ymwybodol bod unrhyw fwlio yn digwydd. Mae ymddygiad bron pob disgybl yn rhagorol ac maent yn dangos parch tuag at ei gilydd ac oedolion o fewn yr ysgol.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r disgyblion yn gyfrifol am wneud penderfyniadau am eu dysgu trwy'r drefn o ddewis gweithgareddau ac, yng nghyfnod allweddol 2, maent yn cyfrannu tuag at gynllunio themau a gweithgareddau penodol ar ddechrau bob tymor. Mae'r disgyblion yn dylanwadu yn briodol ar elfennau o beth a sut maent yn dysgu. Mae hyn yn arwain at elfen o ragoriaeth yn natblygiad eu medrau personol a chymdeithasol gan gynnwys dylanwad arwyddocaol ar eu medrau bywyd, er enghraifft rôl y disgyblion yn nhrefniant y diwrnod 999 ac effaith hyn ar ddatblygu medrau achub bywyd carfan helaeth o ddisgyblion yr ysgol.

Mwynha rhan fwyaf o'r disgyblion eu gwaith ac yn gyffredinol mae disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn datblygu'n dda i fod yn ddysgwyr annibynnol. Fodd bynnag, nid yw hyn wedi datblygu i'r un graddau o fewn cyfnod allweddol 2. Mae'r disgyblion ar draws yr ysgol yn arddangos lefel dda o gymhelliant a dyfal-barhad tra ar waith.

Mae'r Cyngor Ysgol a'r Pwyllgor Eco yn cwrdd yn rheolaidd ac yn penderfynnu ar faterion sy'n cyfrannu'n sylweddol i fywyd yr ysgol. Cânt fewnbwn gweithredol i'r broses hunanarfarnu, cynllunio gweithgareddau a datblygiadau cysylltiedig, prosiectau Ysgol Eco, Ysgol Iach ac Ysgol Masnach Deg. Mae rôl amlwg y Cyngor Ysgol yn natblygiad addysg iechyd yr ysgol ac yn y cydweithio ag asiantaethau allanol yn effeithiol iawn. Mae ymdriniaeth y disgyblion â'r meysydd yma yn aeddfed iawn a chânt ran yn y broses o rannu'r profiadau a sefydliadau eraill.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r cynlluniau gwaith yn gynhwysfawr ac mae'r athrawon yn cynllunio gwersi a gweithgareddau sy'n briodol i oedran a gallu'r disgyblion. Fodd bynnag, ar adegau nid yw'r gwaith bob amser yn ddigon heriol ar gyfer disgyblion mwyaf abl. Cynigir cyfleoedd arbennig i'r disgyblion chwarae rhan weithredol yn y broses o gynllunio'r ddarpariaeth trwy ddewis trywyddau thema a threfnu digwyddiadau. Er enghraifft, cynhelir diwrnod 999 unigryw ar safle'r ysgol lle mae ystod eang o asiantaethau priodol yn rhoi arddangosfa o natur eu gwasanaethau. Cynrychiolwyd yr heddlu a gyflwynodd wersi diogelwch ar y ffyrdd, y gwasanaeth tân, ambiwlans awyr, gwylwyr y glannau, a chymorth cynta gan nyrsys ysbyty Bronglais. Mae hyn wedi arwain ers 2007 at 60 o ddisgyblion yn derbyn hyfforddiant o chwe wythnos ar 'Heartstart' a sut mae ymateb i argyfwng.

Mae darpariaeth eang o brofiadau dysgu yn atgyfnerthu anghenion y rhan fwyaf o'r disgyblion yn dda. Trwy gynllunio pwrpasol ar draws yr holl feysydd, llwyddir i ddatblygu medrau cyfathrebu, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn gyson dda ar draws yr ysgol.

Cynllunnir yn fwriadus ac yn effeithiol ar gyfer datblygu'r Gymraeg o oed cynnar gan sicrhau dwyieithrwydd holl ddisgyblion yr ysgol. Rhoddir lle blaenllaw i ddiwylliant lleol ac i'r Cwricwlwm Cymreig sy'n adlewyrchu'n bositif ar ethos yr ysgol.

Mae'r ysgol wedi ennill y Faner Platinwm Ysgolion Eco ac wedi rhannu'r arfer dda gydag ysgolion y sir. Hyrwyddir y disgyblion i weithredu mewn modd cynaliadwy trwy rannu cyfrifoldebau ymysg disgyblion i sicrhau ail-gylchu, lleihau gwastraff ac arbed ynni.

Mae pwyllgor Masnach Deg yr ysgol yn rhannu gwybodaeth gyda'r disgyblion ynglŷn â dinasyddiaeth a ffermio mewn gwledydd yn Affrica. Mae'r ysgol hefyd wedi creu cyswllt gydag ysgol yn Sbaen. Yn sgil hyn, mae'r disgyblion yn datblygu eu gwerthfawrogiad a'u hymwybyddiaeth o wahanol amodau ac amgylchiadau byw.

**Addysgu: Da**

Mae ansawdd yr addysgu yn dda. Mae gwybodaeth drylwyr gan yr athrawon am y meysydd dysgu a'r pynciau y maent yn eu haddysgu. Mae cynlluniau manwl a phwrpasol wedi eu darparu ac ar waith drwy'r ysgol.

Mae'r athrawon yn defnyddio ystod eang o strategaethau addysgu ac yn cyflwyno gwersi bywiog. Maent yn dwyn pawb i drafodaeth ac yn cefnogi'r disgyblion tra ar waith yn effeithiol. Maent yn cwestiynu yn bwrpasol ac yn dreiddgar er mwyn symud y dysgu ymlaen ac yn gyffredinol mae gwaith gwahaniaethol addas yn cael ei gyflwyno. Mae ymyrraeth staff sy'n cefnogi dysgu yn effeithiol ac yn sicrhau cefnogaeth lawn i ddisgyblion penodol.

Sicrheir cyfleoedd addas ar gyfer datblygu medrau allweddol y disgyblion ar draws y cwricwlwm. Gosoda'r athrawon feini prawf llwyddiant amlwg i'r disgyblion ond ni roddir sylw bob amser i ddarpariaeth digon heriol ar gyfer y disgyblion mwyaf galluog.

Mae cyrhaeddiad disgyblion yn cael ei asesu'n rheolaidd ac mae'r canfyddiadau yn cael eu dadansoddi yn effeithiol i olrhain cynnydd. Defnyddir profion safonol, yn ogystal ag asesiadau'r athrawon eu hunain i osod targedau ar gyfer gwelliant.

Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu a medrau dysgu annibynnol ar waith ac mae gan y disgyblion eu targedau personol ond nid yw'r drefn hyd yma wedi treiddio'n ddigonol drwy'r ysgol.

Mae'r disgyblion yn derbyn adborth llafar ac ysgrifenedig priodol gan yr athrawon a'r cymorthyddion. Derbynia rhieni wybodaeth am gyflawniad a chynnydd eu plant ar ffurf adroddiad blynyddol ac mewn dau gyfarfod yn flynyddol. Mae'r rhieni yn datgan fod yr adroddiadau hyn yn eglur, yn llawn gwybodaeth ac yn cynnig targedau ar gyfer gwelliant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gweithredu fel cymuned ofalgar a dengys ymatebion y disgyblion eu bod yn hapus iawn yn yr ysgol ac yn teimlo'n ddiogel. Mae'r ysgol yn hyrwyddo iechyd a lles disgyblion yn llwyddiannus.

Mae gan y darparwr bolisiau priodol a gweithdrefnau ar gyfer diogelu ac amddiffyn plant gan gynnwys cynnal hyfforddiant blynyddol i holl staff yr ysgol. Mae pob disgybl yn cael cyfle cyfartal i ddatblygu o fewn holl weithgareddau'r ysgol.

Mae'r profiadau dysgu a'r 'amser cylch' a ddarperir yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn effeithiol. Gwneir defnydd effeithiol iawn o'r cyswllt ag asiantaethau eraill yn arbennig wrth ymdrin â'r cywaith '999'. Mae hyn wedi arwain at heddlu Dyfed Powys yn bwriadu efelychu'r diwrnod i glystyrau o ysgolion eraill. Mae'r ysgol yn hyrwyddo presenoldeb ac ymddygiad da yn llwyddiannus iawn.

Mae'r polisi a gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer cefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn glir, yn ddefnyddiol ac yn cydymffurfio â'r Côd Ymarfer. Maent yn weithredol o fewn y cynllunio ac yn cael dylanwad ar safonau'r plant. Mae'r ysgol yn adnabod anghenion disgyblion yn gynnar trwy arsylwi cyson, cyd-drafod â rhieni a chynnal asesiadau ffurfiol ac anffurfiol. Darperir gwaith gwahaniaethol yn unol â'r angen ar gyfer y disgyblion hyn.

Caiff rhieni a gofalwyr eu hysbysu'n dda gydag adolygiadau tymhorol yn cael eu cynnal sy'n mesur llwyddiant ac yn sicrhau effeithiolrwydd.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae gan yr ysgol ethos gartrefol a chyfeillgar sy'n creu cymuned hollol gynhwysol. Mae'r polisiau a gweithdrefnau yn eu lle sy'n sicrhau cyfleodd a hawliau cyfartal i bob

disgybl ym mhob agwedd o ddarpariaeth yr ysgol. Mae'r cwricwlwm yn gwbl hygyrch beth bynnag yw hil, rhyw neu grefydd y disgyblion.

Manteisir yn effeithiol ar safle eang a gwastad yr ysgol i greu cyfleusterau amrywiol a phwrpasol sy'n cynnig ardaloedd dysgu ysgogol tu fewn a thu allan i'r adeilad. Mae'r dosbarthiadau yn lliwgar a chyfforddus a gwneir defnydd effeithiol o adnoddau sydd o ansawdd da i gefnogi'r dysgu a'r addysgu.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan yr ysgol nodau ac amcanion clir sy'n cael eu hyrwyddo'n llwyddiannus gan holl staff yr ysgol. Mae'r pennaeth yn cynnwys sylwadau'r disgyblion, rhieni a staff wrth ddatblygu nodau a gweledigaeth yr ysgol. Yn gyffredinol, cynigia'r pennaeth gyfeiriad strategol pwrpasol i fywyd a gwaith yr ysgol. Mae yna bwyslais priodol o fewn y strategaeth ar wella safonau a'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr. Fodd bynnag, nid yw rôl strategol y dirprwy yn y broses yma wedi ei ddatblygu'n ddigonol. O dan arweinyddiaeth effeithiol y pennaeth, mae athrawon yn cyd-weithio'n dda i ddatblygu gweithgareddau a ffyrdd newydd o ddysgu ac addysgu sy'n dylanwadu'n bositif ar gyflawniad disgyblion.

Mae gan yr holl staff gyfrifoldebau a disgrifiadau swyddi clir. Cefnogir eu datblygiad proffesiynol parhaus trwy system effeithiol o reoli perfformiad sydd yn hybu ymhellach y broses o wella'r ysgol.

Mae gan y corff llywodraethol ymwybyddiaeth briodol o sut mae'r ysgol yn perfformio, ac maent ar y cyfan yn cefnogi'r ysgol yn briodol fel ffrind beirniadol. Mae'r llywodraethwyr yn datblygu ymhellach eu harbenigeddau trwy arsylwi gwersi, trwy dderbyn cyfrifoldebau pynciol a thrwy defnyddio data yn effeithiol wrth gymharu perfformiad disgyblion o fewn y teulu ysgol.

Mae nifer o flaengareddau lleol a chenedlaethol yn datblygu'n briodol. Mae'r ysgol yn datblygu'n dda iawn medrau dwyieithrwydd y disgyblion. Mae'r ysgol wedi ennill y wobr radd platinwm ar gyfer Ysgolion Eco. Mae'n ysgol masnach deg ac mae wedi mabwysiadu trefniadau dysgu newydd eleni er mwyn hwyluso pontio effeithiol y Cyfnod Sylfaen i holl ddisgyblion cyfnod allweddol 1.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r adroddiad hunanarfarnu o ansawdd da ac yn adnabod yn glir ac yn gywir mwyafrif helaeth o gryfderau ac ardaloedd i'w datblygu o fewn yr ysgol. Mae'r deilliannau'n dylanwadu'n briodol ar flaenoriaethau y cynllun gwella ysgol.

Mae'r pennaeth yn dehongli yn rheolaidd ystod o ddata perthnasol, arsylwadau o'r dysgu ac addysgu o fewn dosbarthiadau ynghŷd â deilliannau o'r system rheoli perfformiad er mwyn adnabod cryfderau ac ardaloedd i'w gwella. Mae gan yr ysgol hanes da o gynnal gwelliant mewn safonau a darpariaeth.

Mae’r athrawon yn cael eu cynnwys mewn rhwydweithiau o arfer broffesiynol ar nifer o lefelau priodol. Yn fewnol, mae’r ysgol yn trafod materion sy’n ymwneud â gwella deilliannau disgyblion ac ansawdd eu profiadau. Mae partneriaeth gydag aelod o’r teulu’r ysgol wedi arwain at wella’r ddarpariaeth ar gyfer medrau cyfathrebu Saesneg y disgyblion. O fewn ysgolion y dalgylch mae’r partneriaethau yn dylanwadu’n bositif ar rannu arfer dda o fewn y Cyfnod Sylfaen.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol ystod briodol ac effeithiol o bartneriaid strategol. Mae’r partneriaethau hyn, sy’n cynnwys swyddogion gwella ysgolion yr awdurdod lleol, yn cefnogi’r ysgol i sicrhau deilliannau da ar gyfer dysgu a lles y disgyblion. Mae’r bartneriaeth gydag asiantaethau galwadau brys a chymorth cyntaf yn dylanwadu’n effeithiol iawn ar fedrau bywyd y disgyblion ac yn elfen rhagorol.

Gwna amryw eraill o ymwelwyr o’r gymuned leol cyfraniad da i gyfoethogi profiadau dysgu’r disgyblion. Mae’r gymdeithas rhieni, ffrindiau ac athrawon yr ysgol yn gwneud cyfraniad effeithiol tuag at gefnogi nifer o elfennau o fywyd a gwaith yr ysgol.

Mae trefniadau pontio yn effeithiol ar gyfer plant sy’n trosglwyddo o’r cylch meithrin i’r ysgol gynradd ac i’r disgyblion sydd ar fin trosglwyddo i’r ysgol uwchradd. Mae’r trefniadau yn gymorth priodol i’r disgyblion ymgartrefu’n gyflym yn eu hamgylchedd newydd.

**Rheoli adnoddau: Da**

Caiff staffio ac adnoddau ariannol eu rheoli a’u defnyddio’n effeithiol i gefnogi gwelliant dysgu. Mae ystod dda o adnoddau ar gyfer dysgu ac addysgu. Mae digon o staff profiadol a chynorthwyol i ymdrin â phob agwedd o gwricwlwm yr ysgol. Mae’r athrawon a’r staff cynorthwyol yn gweithio’n effeithiol ar y cyd i sicrhau cefnogaeth briodol i’r dysgwyr ac i hybu'n dda eu cynnydd a’u dealltwriaeth. Mae safon yr adeilad yn dda ac ynghŷd â’r tir o’i chwmpas yn darparu amgylchedd dysgu symbylus.

Gwna’r athrawon ddefnydd effeithiol o’u hamser ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu.

Mae’r ysgol yn darparu gwerth da am arian o ystyried cynnydd a deilliannau da'r dysgwyr, ynghŷd â’r defnydd priodol o’r cyllid.

# Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Derbyniwyd 32 o holiaduron yn ôl ac o fewn bob un ohonynt mae'r rhieni yn datgan fod eu plant yn hoffi'r ysgol, yn hapus yno ac yn teimlo'n ddiogel. Credant hefyd fod ymddygiad y disgyblion yn dda, fod y disgyblion yn cael eu parchu a'u datblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol ac i ysgwyddo cyfrifoldebau.

Maent oll o'r farn fod yr athrawon yn gweithio'n galed, maent yn hapus a'r cynnydd wna'r disgyblion a'r amrywiaeth sydd mewn gweithgareddau a gynnigir iddynt. Teimlant fod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.

Mae bron bob un yn hapus hefo'r wybodaeth a dderbyniant am gynnydd y disgyblion a'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â dod i'r ysgol i ymholi am wybodaeth.

**Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr**

Cwblhaodd 39 o ddysgwyr cyfnod allweddol 2 yr holiadur a siaradodd y tîm â'r disgyblion yn ystod yr arolygiad. Mae dysgwyr oll o'r farn eu bod yn cael eu trin â pharch ac yn dweud eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Maent o'r farn bod yr athrawon yn rhoi cymorth da iddynt ac yn eu helpu i wybod pa mor dda y maent yn llwyddo. Dywedant fod yr athrawon yn eu haddysgu'n effeithiol am bwysigrwydd gwybod sut i fod yn iach ac ymarfer corff yn rheolaidd.

Dywed y mwyafrif helaeth eu bod yn gwybod pwy y gallant siarad â nhw os ydynt yn poeni. Mae'r mwyafrif helaeth yn credu fod ymddygiad yn dda o fewn yr ysgol ac nad oes camymddwyn yn effeithio ar eu gallu i weithio.

## Atodiad 2

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Glyn Roberts | Arolygydd Cofnodol |
| Jeff Jones | Arolygydd Tîm |
| Veronica Williams | Arolygydd Lleyg |
| Helen Rowe | Arolygydd Cymheiriaid |
| Michael Carruthers | Enwebai'r Ysgol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad am ddim i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost atgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod allweddol 1 | Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |